# Beic newydd



Tric a Chlic 3



Rhedodd Meic allan o'r tŷ.





Gwelodd ei feic newydd, beic glas, sgleiniog.



Neidiodd ar gefn ei feic newydd.





Aeth i lawr at yr afon a gwelodd bysgod yn neidio yn y dŵr.



Yna, clywodd sŵn y trên o dan bont y rheilffordd.






Aeth heibio'r neuadd a gwelodd neidr yn llithro yn y glaswellt.



Aeth i'r fferm a gwelodd yr ieir yn pigo, pigo am fwyd a'r ceiliog yn canu a chanu.





Aeth dros y bont a gwelodd ...



deigr!





“Rydw i'n breuddwydio,” meddai Meic.
“Does dim teigrod yn byw yma.” Aeth fel y gwynt i ddweud wrth ei ffrindiau.



"Mae teigr wrth y bont," meddai Meic.
"Does dim teigrod yn byw yma," atebodd ei ffrindiau gan chwerthin.





Mae angen sbectol newydd ar Meic – nid beic!